

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod y Cabinet

Dyddiad y cyfarfod:	16 Chwefror 2021
Aelod Cabinet	Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog Cyswllt:	Dilwyn Williams, Prif Weithredwr
Teitl yr Eitem:	Strategaeth Gyfalaf y Cyngor

Penderfyniad a geisir

Bod y Cabinet yn ariannu'r bwlch cyllido ar gyfer Canolfan Dolfeurig (£600,000)

Bod y Cabinet yn cytuno i ariannu'r bwlch cyllido ar gyfer safle cyn Dy'r Ysgol Llanrug (£150,000) gan ad-ennill rhan helaeth o'r buddsoddiad gwreiddiol drwy werthu'r tŷ a rhan o'r tir ar gyfer gwireddu cynlluniau tai fforddiadwy i drigolion lleol a gwneud gwelliannau i'r ysgol gynradd.

Bod £2m pellach yn cael ei ddarparu ar gyfer cychwyn ar waith o adeiladu unedau diwydiannol yn y sir.

Bod y Cyngor yn aros i weld beth fydd canlyniad y trafodaethau a geir gyda Llywodraeth Cymru am Prom Abermaw cyn ystyried unrhyw ddyraniadau pellach yn y Cynllun Asedau.

Cefndir

1. Yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019 fe fabwysiadodd y Cyngor Gynllun Asedau ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd hyd at 2028/29.
2. Mae copi llawn o'r Cynllun a fabwysiadwyd i'w weld drwy ddilyn y linc isod.
<https://cyngorgwynedd.sharepoint.com/:b:/s/Allanol/ER3q0GJLRHFLgsVOHzN4CfwBvG7raeTswtCX1M62yufelw>
3. Roedd y Cynllun yn rhagdybio'r adnoddau fyddai gennym ar gyfer y 10 mlynedd i ddod (£72m) ac o'r holl gynlluniau a roddwyd ymlaen gan adrannau, yn blaenoriaethu'r cynlluniau hynny y byddem felly yn gallu eu cyflawni gan ystyried yr adnodd oedd yn debygol o fod ar gael.
4. Yn amlwg, yn sgil y broses blaenoriaethu honno roedd yna nifer gynlluniau na fu modd eu cynnwys, ac roedd yna gydnabyddiaeth hefyd y byddai yna gynlluniau

yn codi yn ystod y cyfnod 10 mlynedd nad oedd yn wybyddus i ni ar adeg paratoi'r cynllun.

5. Roedd angen i'r Cynllun fod yn un byw a hyblyg felly.
6. Mae'r sefyllfa adnoddau wedi newid ychydig ers i'r cynllun gael ei gymeradwyo ac mae angen ystyried pa addasiadau sydd eu hangen felly i'r Cynllun.

Anghenion ychwanegol

7. Roeddem yn ymwybodol ar adeg paratoi'r cynllun y byddai yna gynlluniau yn codi yn ystod y cyfnod 10 mlynedd nad oedd modd eu rhagweld ac fe roddwyd £0.5m y flwyddyn o'r neilltu er mwyn cyfarch y gofynion hynny.
8. Y rhagdybiaeth o rododi swm mor fychan o'r neilltu oedd mai cynlluniau bach fyddai rhain ac y byddai'n rhaid dygymod gyda symiau mwy drwy ystyried y cynlluniau unigol hynny a sut i'w hariannu.
9. Dros y dwy flynedd a fu 2019/20 a 2020/21 mae'r Cyngor wedi cyfarch yr anghenion sydd wedi codi.
10. Mae yna gylluniau cyffelyb wedi eu cynnwys ar gyfer 2021/22 ac fe welir rhain yn adroddiad y Pennaeth Cyllid ar y gyllideb.
11. Fodd bynnag mae yna gynlluniau eraill mwy sylweddol sydd angen ystyriaeth fel a ganlyn.
12. **Canolfan Dolfeurig, Dolgellau** – Pan gafodd y cynllun yma ei ystyried yn gyntaf gofynnwyd am £1.2m i sefydlu adeilad fyddai'n disodli'r ganolfan bresennol yn Nolgellau sydd mewn cyflwr truenus ac yn llwyr anaddas ar gyfer darparu cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu. Fodd bynnag, yn sgil gwneud gwaith mwy trylwyr ymddengys y byddai adeiladu adeilad gydag adnoddau modern y byddai rhywun yn ei ddisgwyl o'r fath gyfleustra yn costio'n agosach at £1.8m. Mae yna fwllch cyllido felly o **£600,000**. Y dewis yw darparu adnodd sydd yn brin o'r hyn y dylid ei adeiladu am £1.2m neu darparu adnodd briodol ar gost o £1.8m.
13. **Unedau Diwydiannol** – Mae'r galw am unedau diwydiannol ar draws y sir wedi dod yn fwy a mwy amlwg dros y blynyddoedd gyda rhestr aros gan fusnesau am unedau. Fodd bynnag pan luniwyd y Cynllun Asedau yn wreiddiol ni roddwyd cais ymlaen am adnodd er mwyn adeiladu mwy o unedau i gwrdd a'r galw hwnnw. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru am sicrhau bod y safleoedd strategol yn derbyn sylw ond mae hefyd angen am unedau llai i gyfarch galw lleol.

Yn hwyr y llynedd fe roddodd y Llywodraeth grant o £925,000 i ni hyrwyddo'r economi a gellir defnyddio'r grant yma i ddarparu rhwng 4 a 5 o unedau. Ar sail bod uned yn costio oddeutu £200,000 yr un (heb gost tir) gwahoddir y Cabinet i ystyried a yw'n dymuno ychwanegu at y swm yma.

14. **Promenad Abermaw** – yn wreiddiol rhagwelwyd y byddai angen gwario £1.6m ar adfer promenâd y gogledd yn Abermaw yn sgil difrod a wnaed iddo ers rhai blynyddoedd bellach. Byddai'n ofynnol i'r Cyngor ddarganfod 15% o'r adnodd yma ac fe gynhwyswyd £312,000 yn y Cynllun Asedau. Fodd bynnag, erbyn hyn, yn sgil gwneud gwaith llawer mwy manwl ymddengyus bod y gost o adfer Promenad y Gogledd yn debygol o fod rhwng £16 a £22.5m sy'n golygu y gallasai'r Cyngor fod angen darganfod **£3.375m** fel cyfraniad os am fedru cyflawni'r gwaith.
15. **Tir ger Ysgol Llanrug** – Yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2017 bu i'r Cabinet gytuno i brynu darn o dir yn ymyl ysgol gynradd Llanrug rhag ofn y byddai ei angen at ddibenion addysgol i'r dyfodol. Roedd y cyfle yn un na fyddai modd ei golli pe byddai angen gwneud unrhyw beth am yr ysgol Gynradd i'r dyfodol ond nid oedd yna gynlluniau nac adnoddau ar y pryd i wneud hynny, ac felly fe "fenthycwyd" yr adnodd o adnoddau'r Cyngor er mwyn ei brynu. Erbyn hyn, dim ond elfen o'r tir sydd ei angen at ddibenion addysgol a bydd modd ad-ennill elfen o'r gost drwy werthu'r tŷ a darnau o'r tir ar gyfer tai fforddiadwy ond mae yna fwlch tebygol o **£150,000** angen ei ariannu.
16. Rhaid hefyd bod yn fyw i'r ffaith fod yna gynlluniau na fu modd eu hariannu pan yn llunio'r Cynllun Asedau (gweler Rhan B ac C o'r cynllun gwreiddiol).
17. Y cynllun uchaf ar y rhestr hwnnw oedd Cynllun yr Adran Addysg i gwblhau'r adolygiad o drefniadaeth ysgolion ym Mangor (£6,370,000 tuag at gynllun o £18.2m). Oherwydd nad oedd adnoddau yn caniatáu, nodwyd y dylid gwro unrhyw arbediad yn y gost o gynnal y Cynllun Ôl-16 i'r cynllun yma, gan ddisgwyl i'r Adran Addysg ddarganfod yr adnoddau refeniw i dalu cost unrhyw fenthyciad gweddilliol.
18. Rhaid cofio hefyd bod yr Adran yn edrych am adnoddau i fedru adeiladu'r adnodd blynyddoedd cynnar yn ysgol newydd Treferyth gan y Llywodraeth ond nid oes unrhyw sicrwydd y bydd ar gael.

Adnoddau sydd ar gael

19. Ers cymeradwyo'r cynllun gwreiddiol, rydym wedi derbyn amrywiol grantiau lle roedd modd eu defnyddio yn hytrach na defnyddio'r adnoddau Cynllun Asedau. Rydym hefyd wedi gweld arbedion costau benthyca (wrth i'r proffil benthyca fod yn hwyrach na'r disgwyl) a gydag amrywiol addasiadau eraill y bu modd eu gwneud i'r rhaglen mae yna £3,044,070 o adnoddau ar gael i'w dyranu.

20. Ar ben hyn, mae'r setliad cyfalaf ar gyfer 2020/21 a 2021/22 yn uwch na'r hyn a ragdybiwyd ar adeg paratoi'r cynllun asedau. Mae hyn yn gyfanswm o £2,135,000 sydd hefyd ar gael.
21. Mae'r Pennaeth Priffyrdd hefyd bellach wedi nodi na fydd angen y ddarpariaeth cyfan a ddarparwyd ar ei gyfer er mwyn capio hen domen sbwriel Cilgwyn. Golyga hynny bod yna £600,000 pellach yn dod yn rhydd.
22. Mae yna gyfanswm o £5,779,070 ar gael i'r Cabinet ystyried sut y maent am ei ddefnyddio.

Argymhelliad

23. Argymhellir bod y Cabinet yn ariannu Canolfan Dolfeurig (£600,000) a phryniant tir Llanrug (£150,000).
24. Argymhellir bod £2m pellach yn cael ei ddarparu ar gyfer cychwyn ar waith o adeiladu unedau diwydiannol yn y sir.
25. O'r £3,029,070 sydd ar ôl, argymhellir nad ydym eto yn ei ddyranu gan fod yna gynlluniau all gystadlu am yr adnodd yma sef Prom Abermaw; Cynllun Addysg Ardal Bangor ac Ysgol Treferthyr ymysg eraill.
26. Pan ystyriwyd y cais am adnoddau ar gyfer Prom Abermaw yn wreiddiol, yn wyneb y swm arfaethedig, a'r ffaith nad yw'r Cyngor yn cael ei ariannu i gwrdd a'r fath gynlluniau, gofynnwyd i'r Adran fynd ar ôl Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio eu darbwyllo i ariannu 100% o'r cynllun yma. Nid oes canlyniad wedi ei adrodd ar gyfer y trafodaethau hyd yma.
27. Credaf felly ei fod yn gynamserol i ddyranu'r adnodd i'r naill gynllun na'r llall ac y dylid aros hyd nes y bydd y trafodaethau ynglŷn a Phrom Abermaw a manylion cyllidol mwy cadarn y cynllun wedi dod i law.

Sylwadau'r Swyddogion Statudol

Swyddog Monitro

"Mae'n briodol fod y Cabinet yn adolygu y rhaglen cyfalaf I ymateb I newidiadau ac anghenion ychwanegol neu wahanol sydd wedi datblygu."

Pennaeth Cyllid

"Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad yma. Cadarnhaf gywirdeb y ffigyrau ac rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir."